Edrych ar Gyfiawnder

Y System Cyfiawnder Troseddol a chi

Y SYSTEM CYFIAWNDER TROSEDDOL

Eich diogelu rhag troseddau

hysbysu'r heddlu o drosedd ac ymchwilio iddo

paratoi ar gyfer y llys

mynd i'r llys

dedfrydu

cosbi ac ailsefydlu

Oeddech chi'n gwybod?

- Mae nifer y troseddau yn y wlad hon wedi gostwng chwarter ers 1997.
- Mae'r risg o ddioddef trosedd ar ei hisaf erioed ac mae wedi gostwng traean ers 1995.
- Mae'r heddlu yn ymgymryd â rhaglen o newid sy'n rhoi'r cyhoedd wrth galon y gwasanaeth a ddarperir ganddynt.
- Os byddwch yn colli eich ffôn neu os caiff ei ddwyn gallwch ffonio 08701 123 123 i'w atal rhag cael ei ddefnyddio ar unrhyw rwydwaith – hyd yn oed os newidiwyd y cerdyn SIM – gan olygu ei fod yn ddiwerth i leidr.

A ydych erioed wedi clywed am y System Cyfiawnder Troseddol?

Hyd yn oed os nad ydych wedi clywed amdani, byddwch yn adnabod rhai o'r bobl sy'n gweithio fel rhan ohoni – fel yr heddlu, swyddogion prawf a barnwyr. Mae'r bobl hyn yn ffurfio rhan o'r system ar gyfer atal ac ymdrin â throseddau a throseddwyr yn y wlad hon.

Mae'r daflen hon yn esbonio'r System Cyfiawnder Troseddol. Mae'n dangos sut yr ydym yn creu cymunedau mwy diogel drwy:

- diogelu'r cyhoedd a chynorthwyo dioddefwyr a thystion
- dod â throseddwyr gerbron eu gwell
- atal troseddwyr rhag parhau i droseddu neu atal troseddau rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Pam ei bod yn bwysig i chi?

Diben y System Cyfiawnder Troseddol yw cynorthwyo aelodau o'r cyhoedd. Mae lefelau trosedd yn y wlad hon yn gostwng. Ond mae troseddau yn effeithio ar bob un ohonom o hyd. Os nad ydych wedi dioddef trosedd, efallai eich bod wedi gweld yr effeithiau ar y gymuned o'ch cwmpas. Ac efallai eich bod yn holi beth gallwch ei wneud.

Un peth y gallech ei wneud yw cefnogi'r System Cyfiawnder Troseddol. Efallai y byddwch am ddilyn un o'r awgrymiadau yn yr adrannau *Beth y gallwch chi ei wneud* yn y daflen hon.

Mae'r System Cyfiawnder Troseddol yn awyddus ei bod yn cynrychioli'r cymunedau a wasanaethir ganddi. Rydym am i bobl o bob cefndir gymryd rhan yng nghyfleoedd gwirfoddoli y System Cyfiawnder Troseddol a theimlo'n hyderus bod y system yn diwallu eu hanghenion.

Mae cymorth gan y cyhoedd yn hanfodol i'n gwaith. Pa un a ydych yn ddioddefwr sy'n hysbysu'r heddlu o drosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu pa un a ydych yn un o wirfoddolwyr y System Cyfiawnder Troseddol, rydych yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sicrhau bod eich cymuned yn lle diogel i fyw ynddi.

Diben y System Cyfiawnder Troseddol yw cynorthwyo aelodau o'r cyhoedd

Beth y gallwch chi ei wneud

Hysbysu'r heddlu o drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
Ffoniwch eich gorsaf heddlu leol ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys neu ffoniwch 999 mewn argyfwng.

Rhowch wybodaeth i'r heddlu am drosedd yn ddienw.
Ffoniwch Crimestoppers ar 0800 555 111.
Ymwelwch â www.crimestoppers-uk.org am ragor o wybodaeth am fod yn **Wirfoddolwr Crimestoppers**.

Byddwch yn **Swyddog Cefnogi Cymuned** – helpwch yr heddlu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a rhowch sicrwydd i'r cyhoedd.
Ffoniwch eich gorsaf heddlu leol.
Ymwelwch â www.policecouldyou.co.uk /cso

Ymunwch â **chynllun Gwarchod Cymdogaeth** lleol neu dechreuwch gynllun o'r fath.
Cysylltwch â'ch gorsaf heddlu leol.
Ymwelwch â www.neighbourhoodwatch.uk.com

Hysbysu'r heddlu o drosedd ac ymchwilio iddo

Oeddech chi'n gwybod?

- Caiff dioddefwyr gymorth personol ar ôl iddynt ddioddef trosedd. Mae gan Cymorth i Ddioddefwyr dros 10,000 o wirfoddolwyr yn gweithio ar lefel leol i gynorthwyo dioddefwyr trosedd.
- Gan ein bod yn gwybod bod llawer o droseddau yn gysylltiedig â chyffuriau, mae rhai heddluoedd bellach yn rhoi profion cyffuriau i droseddwyr i'w hannog i roi'r gorau i droseddu ac i gael triniaeth.
- Mae Timau Troseddwyr Ifanc yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n wynebu'r risg y byddant yn troseddu a'r rhai sy'n cyflawni troseddau ac yn ymddwyn mewn ffordd wrthgymdeithasol i'w helpu i beidio â throseddu yn y dyfodol.
- Hefyd gallwch gynnal rhesi adnabod ar fideo, er mwyn i'r broses o adnabod troseddwr fod yn llai brawychus.

Pan fyddwch yn hysbysu'r heddlu o drosedd

Mae'r heddlu yn cymryd pob trosedd o ddifrif. Mae swyddogion yr heddlu yn chwilio am dystiolaeth yn lleoliad y trosedd ac yn cymryd datganiadau gan ddioddefwyr a thystion. Maent yn ceisio dod o hyd i'r person a ddrwgdybir, a gaiff ei arestio i'w holi yng ngorsaf yr heddlu.

Bydd yr heddlu hefyd yn cynnig eich rhoi mewn cysylltiad â Chymorth i Ddioddefwyr i gael help a gwybodaeth.

Unwaith y daw'r holi i ben, mae gan yr heddlu sawl dewis:

- cyfeirio'r achos at Wasanaeth Erlyn y Goron am benderfyniad ynghylch pa un a ddylid cyhuddo'r person a ddrwgdybir ai peidio
- gofyn i'r person a ddrwgdybir ddychwelyd ar ddyddiad diweddarach
- rhoi rhybudd ffurfiol i'r person a ddrwgdybir
- rhyddhau'r person a ddrwgdybir, os nad oes tystiolaeth sy'n awgrymu ei fod wedi cyflawni'r trosedd.

Os ydych yn ddioddefwr neu'n dyst, gallwch ddisgwyl i'r System Cyfiawnder Troseddol eich trin mewn ffordd sensitif a chyda pharch. Rydym hefyd yn gweithio'n galed i sicrhau ein bod yn parhau i'ch hysbysu o'r hyn sy'n digwydd gyda'r ymchwiliad i'ch achos, yn ogystal â rhoi gwybod i chi am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael i chi.

Gallwch ddisgwyl i'r System Cyfiawnder Troseddol eich trin mewn ffordd sensitif a chyda pharch

Beth y gallwch chi ei wneud

Gwirfoddolwch fel **Ymwelydd Annibynnol y Ddalfa** – person sy'n ymweld â gorsafoedd heddlu i wirio celloedd heddlu a sut y caiff pobl yn y ddalfa eu trin.
Ffoniwch Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol y Ddalfa ar 020 7837 0078
Ymwelwch â www.icva.org.uk

Byddwch yn **Gwnstabl Cynorthwyol** – swyddog yr heddlu gwirfoddol sy'n cynorthwyo swyddogion rheolaidd yn y gwaith o'u helpu i atal a lleihau troseddau.
Ffoniwch eich gorsaf heddlu leol.
Ymwelwch â www.policecouldyou.co.uk i gael rhagor o fanylion ar recriwtio neu www.specialconstables.gov.uk i gael rhagor o wybodaeth am yr Heddlu Cynorthwyol.

Byddwch yn **Wirfoddolwr Cymorth yr Heddlu** – mae gan lawer o heddluoedd wirfoddolwyr sy'n helpu mewn meysydd gwahanol, fel gweinyddu a gwasanaethau cwsmeriaid.
Ffoniwch eich gorsaf heddlu leol i weld pa gyfleoedd y maent yn eu cynnig.

Paratoi ar gyfer y llys

Oeddech chi'n gwybod?

- Rydym yn cynyddu nifer y treialon sy'n barod i gael eu cynnal ar y diwrnod a fwriadwyd er mwyn rhoi troseddwyr ar brawf yn gyflymach.
- Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cynyddu nifer yr achosion sy'n dod i'r llys, ac mae mwy o droseddwyr yn dod gerbron eu gwell am eu troseddau.
- Caiff Unedau Gofal Tystion eu cyflwyno ledled y wlad – gan ddarparu'r holl wasanaethau sydd eu hangen ar dystion sy'n mynd i'r llys.
- Gall rhai tystion roi tystiolaeth ar ffurf cyswllt fideo (nad yw bob amser o fewn adeilad y llys), a cheir lleoedd aros ar wahân ar gyfer tystion dros yr erlyniad mewn llawer o lysoedd.

Sicrhau'r cyhuddiad cywir

Ar ôl i'r heddlu orffen ymchwiliad, caiff y rhan fwyaf o achosion eu cyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron am benderfyniad ynghylch pa un a ddylid cyhuddo person a ddrwgdybir a pha fath o gyhuddiad y dylai fod.

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cyflogi cyfreithwyr a gweithwyr achos i sicrhau'r cyhuddiad cywir y tro cyntaf, oherwydd gellir gwastraffu amser y llys os oes angen newid cyhuddiad yn ddiweddarach.

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron hefyd yn paratoi'r achos ac yn ei gyflwyno gerbron y llys. Weithiau, gall ofyn i'r llys ganiatáu i dystion diamddiffyn neu dystion a gaiff eu bygylu roi tystiolaeth o dan amodau arbennig. Gallai hyn gael ei wneud y tu ôl i sgrîn, fel nad oes rhaid iddynt edrych ar y person a gyhuddir o gyflawni'r trosedd.

Caiff achosion llai difrifol – fel lladrad neu drafod nwyddau wedi'u dwyn – eu cynnal fel arfer mewn **llys ynadon**.

Caiff achosion mwy difrifol – fel llofruddiaeth, treisio rhywiol ac ymosodiad difrifol – eu cynnal yn **Llys y Goron**.

Os oes angen i chi roi tystiolaeth mewn llys, bydd y rhai sy'n gweithio yn y System Cyfiawnder Troseddol yn gwneud eu gorau i wneud y profiad mor hawdd â phosibl. Mae'r Gwasanaeth Tystion annibynnol, a gaiff ei redeg gan Cymorth i Ddioddefwyr, hefyd wrth law i roi help. Ymwelwch â www.cjsonline.gov.uk am wybodaeth i dystion a chliciwch ar 'Victim's Walkthrough'.

Os ydych yn ddiffynnydd, neu os ydych yn adnabod un, gallwch gael help a chyngor yn www.cjsonline.gov.uk a chan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn www.legalservices.gov.uk

Weithiau, bydd tystion diamddiffyn neu dystion a gaiff eu bygylu yn rhoi tystiolaeth o dan amodau arbennig

Beth y gallwch chi ei wneud

Os ydych yn dioddef trosedd, neu os ydych yn dyst i drosedd, ystyriwch ddod ymlaen a byddwch yn barod i roi tystiolaeth yn y llys.

Byddwch yn rhan o **Banel Atal Troseddau** – grwpiau o bobl sy'n cynnal ymgyrchoedd i fynd i'r afael â throseddau lleol.
Ffoniwch y Swyddog Atal Troseddau yn eich gorsaf heddlu leol i gael mwy o fanylion.

Byddwch yn **Wirfoddolwr Cymorth i Ddioddefwyr** a rhowch gymorth lleol naill ai i ddioddefwyr trosedd neu i dystion mewn llys.
Ffoniwch Cymorth i Ddioddefwyr ar 020 7735 9166.
Ymwelwch â www.victimsupport.org.uk
Ebost info@victimsupport.org.uk

Ystyriwch yrfa yn y System Cyfiawnder Troseddol.
Ymwelwch â www.cjsonline.gov.uk am ragor o fanylion.

Mynd i'r llys

Oeddech chi'n gwybod?

- Mae'r Gwasanaeth Tystion bellach yn rhoi cymorth i dystion ym mhob un o Lysoedd y Goron a'r llysoedd ynadon.
- Mae'r llywodraeth wrthi'n datblygu llysoedd arbenigol i ymdrin â phroblemau lleol. Mae llysoedd arbennig ar gyfer trais domestig yn weithredol eisoes.
- Mae'r System Cyfiawnder Troseddol yn targedu pobl nad ydynt yn talu dirwyon neu nad ydynt yn ymddangos gerbron y llys.
- Rydym yn cyflwyno diwygiadau i ganiatáu cynnwys collfarnau blaenorol troseddwr mewn gwrandawiadau llys.

Ceir tri math o lys troseddol:

1. Llysoedd Ynadon
Yn gyffredinol mae llysoedd ynadon yn ymdrin ag achosion llai difrifol – fel troseddau moduro, mân ladradau a difrod troseddol. Mae llawer o ynadon yn wirfoddolwyr o'r gymuned leol sy'n cael hyfforddiant arbennig. Mae tri ynad yn gwrando pob achos ac yn pennu'r ddedfryd.

2. Llys y Goron
Mae Llysoedd y Goron yn ymdrin ag achosion mwy difrifol – fel treisio rhywiol, llofruddiaeth neu fwrgleraeth. Oherwydd difrifoldeb yr achosion, cânt eu gwrando gan farnwr a rheithgor. Y rheithgor a fydd yn penderfynu pa un a yw'n credu bod y person a gyhuddir yn euog a'r barnwr fydd yn pennu'r ddedfryd.

3. Llysoedd Ieuenctid
Ceir llysoedd ieuenctid arbennig i ymdrin â'r rhan fwyaf o achosion sy'n cynnwys pobl ifanc. Mae ganddynt ynadon sydd wedi cael hyfforddiant arbennig, a gwrandewir achosion yn breifat.

Ym mhob llys, gellir dyfarnu'r person a gyhuddir yn ddieuog a'i ryddhau heb gofnod troseddol. Fel arall, gellir ei ddyfarnu'n euog a'i ddedfrydu.

Mae'r llysoedd yn dibynnu ar ymrwymiad dioddefwyr a thystion i roi tystiolaeth a helpu i atal troseddau. Fodd bynnag, mae miloedd o bobl yn wirfoddolwyr mewn gwasanaethau cymorth sy'n helpu i sicrhau bod y llysoedd yn cael eu rhedeg yn esmwyth ac yn effeithlon.

Mae'r llysoedd yn dibynnu ar ymrwymiad dioddefwyr a thystion i roi tystiolaeth

Beth y gallwch chi ei wneud

Gwirfoddolwch ar gyfer y **Gwasanaeth Tystion** – i gynorthwyo tystion yn y llys.
Cysylltwch â'ch gwasanaeth Cymorth i Ddioddefwyr lleol. Ceir manylion yn www.victimsupport.org

Gwnewch gais i fod yn **ynad.**
Ffoniwch 0800 003 007
Ymwelwch â www.dca.gov.uk

Eisteddwch ar **Banel Troseddwyr Ifanc** – corff sy'n helpu i benderfynu sut y dylai pobl ifanc wneud iawn am drosedd a gyflawnwyd ganddynt.
Ymwelwch â www.youth-justice-board.gov.uk

Dedfrydu

Oeddech chi'n gwybod?

- Mae rhai carcharorion a gaiff eu rhyddhau i mewn i'r gymuned bellach yn gwisgo tagiau electronig, felly os byddant yn torri cyfyngiadau penodol, gellir eu carcharu eto ar unwaith.
- Mae mwy o ddedfrydau bellach yn gorfodi troseddwyr i wneud iawn â'u cymuned leol – ac â'u dioddefwyr.
- Cedwir troseddwyr treisgar a rhywiol peryglus yn y ddalfa am ba hyd bynnag y maent yn peri risg i'r cyhoedd.
- Mae'r llywodraeth wedi cyflwyno Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol i fynd i'r afael â thygïaeth lefel isel yn eich cymuned leol. Erbyn mis Mawrth 2004, cyflwynwyd 2,445 o Orchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol gan y llysoedd.

Sicrhau'r ddedfryd gywir

Pan fydd ynadon neu farnwyr yn pennu dedfryd, mae angen iddynt wneud mwy na dim ond cosbi'r troseddwr. Mae angen iddynt ystyried y canlynol:

- diogelu'r cyhoedd
- annog y troseddwr i wneud iawn am ei drosedd
- edrych ar yr hyn a wnaeth i'r troseddwr droseddu er mwyn i'r System Cyfiawnder Troseddol allu helpu i'w tynnu allan o fywyd o droseddu
- darbwyllo'r troseddwr i beidio â chyflawni trosedd eto.

Mae gan ynadon a barnwyr bedwar opsiwn:

1. cael y person yn ddieuog
2. dirwyo'r troseddwr
3. dedfryd gymunedol
4. dedfryd o garchar i oedolion neu ddedfryd mewn sefydliad troseddwyr ifanc i bobl ifanc.

Nid yw **dedfryd gymunedol** yn opsiwn hawdd. Mae'n cyfuno cosbau ag ymddygiad troseddwr sy'n newid a ffyrdd o wneud yn iawn am y drosedd – weithiau gwneir hynny yn uniongyrchol â dioddefwr y drosedd. Gall hefyd annog y troseddwr i ymdrin ag unrhyw broblemau a allai olygu eu bod yn cyflawni troseddau – fel cyffuriau.

Mae **dedfryd o garchar/dedfryd mewn sefydliad troseddwyr ifanc** ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol neu ar gyfer pobl sy'n aildroseddu.

Mae'n bwysig iawn ein bod yn rhoi'r ddedfryd gywir i droseddwyr, oherwydd gall effeithio ar ba un a fyddant yn troseddu eto yn y dyfodol. Mae sicrhau bod troseddwyr yn gweld canlyniadau eu troseddau ac yn dechrau byw bywydau mwy cyfrifol er budd pawb.

Gall y ddedfryd gywir helpu i atal person rhag troseddu eto

Beth y gallwch chi ei wneud

Byddwch yn **Wirfoddolwr Prawf** i helpu i orfodi dedfrydau cymunedol, megis gweithredu fel mentor
Ffoniwch eich swyddfa brawf leol am ragor o wybodaeth.
Ymwelwch â www.probation.homeoffice.gov.uk

Gwirfoddolwch fel **Cyfryngwr Dioddefwr-Droseddwr** – sef person sy'n helpu dioddefwyr troseddau a throseddwyr i gyfathrebu ac ymchwilio i'r hyn y gellir ei wneud i unioni pethau.
Ymwelwch â Mediation UK yn www.mediationuk.org.uk
Ebost Mediation UK yn enquiry@mediationuk.org.uk

Cosbi ac ailsefydlu

Oeddech chi'n gwybod?

- Mae nifer y bobl a gaiff eu hailgollfarnu am drosedd yn gostwng.
- Mae gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid dros 5,000 o wirfoddolwyr sy'n aelodau o'i Baneli Troseddwyr Ifanc a 5,000 o fentoriaid sy'n fodelau rôl cadarnhaol i droseddwyr ifanc.
- Bellach gellir teilwra dedfrydau cymunedol i anghenion troseddwr unigol, gan gynyddu'r siawns y bydd yn creu bywyd iddo'i hun nad yw'n gysylltiedig â throseddau.
- Mae asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol yn gweithio gyda sefydliadau eraill, fel asiantaethau iechyd a thai, i fonitro'n ofalus y troseddwyr sydd wedi cyflawni troseddau rhywiol a threisgar. Mae'r heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth carchardai ac asiantaethau eraill yn cwrdd yn rheolaidd ym mhob ardal o dan Drefniadau Diogelu'r Cyhoedd Aml-Asiantaeth (MAPPA) i asesu a rheoli'r risgiau y mae troseddwyr yn eu peri.

Rhoi diogelwch y cyhoedd yn gyntaf

Pan gaiff troseddwyr eu hanfon i'r carchar neu i'r ddalfa, mae diogelwch y cyhoedd yn ystyriaeth bwysig iawn. Ar yr un pryd, mae'n bwysig ein bod yn annog ailsefydlu – annog troseddwyr i fyw bywydau mwy cyfrifol. Felly, mae carchardai yn hyrwyddo ymddygiad cyfrifol i geisio lleihau'r risg y bydd carcharorion yn troseddu eto yn y dyfodol.

Caiff troseddwyr â dedfryd gymunedol eu goruchwylio gan swyddogion prawf neu Dîm Troseddwyr Ifanc lleol. Bydd rhai pobl sy'n gadael y carchar hefyd yn gorfod bod yn atebol i swyddog prawf neu eu Tîm Troseddwyr Ifanc. Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn gweithio gyda throseddwyr i'w helpu i ddeall effeithiau eu troseddau ac i newid eu hymagwedd ac ymddygiad. Byddant hefyd yn eu helpu i ymdrin â phroblemau sy'n cynyddu'r siawns y byddant yn cyflawni trosedd eto – fel diweithdra neu ddigartrefedd.

Yn ddiweddar unwyd y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf i ffurfio Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) a fydd yn creu un gwasanaeth, sy'n gyfrifol am reoli troseddwyr. Bydd NOMS yn gyfrifol am gosbi ac ailsefydlu troseddwyr er mwyn sicrhau eu bod yn llai tebygol o aildroseddu.

Pam bod ailsefydlu mor bwysig i ni? Oherwydd bod troseddwr a ailsefydlwyd yn llai tebygol o droseddu eto. Er enghraifft, weithiau mae troseddwyr sydd ar gyffuriau yn dwyn i ariannu eu dibyniaeth ar gyffuriau. Os rhown driniaeth iddynt yn y carchar, maent yn llai tebygol o droseddu eto pan gânt eu rhyddhau.

Yn y pen draw, mae hyn yn creu cymdeithas fwy diogel i bawb.

Gall aelodau'r cyhoedd gael effaith sylweddol ar siawns troseddwr o ailsefydlu drwy wirfoddoli i helpu cyn droseddwyr i arwain bywydau mwy cyfrifol.

Mae troseddwr a ailsefydlwyd yn llai tebygol o droseddu eto

Beth y gallwch chi ei wneud

Holwch ynghylch dod yn **Ymwelydd Carchar** – rhywun sy'n ymweld â charcharorion, yn gwrando arnynt ac yn rhoi ymdeimlad o hunan-barch iddynt er mwyn eu helpu i drawsnewid eu bywydau.
Ffoniwch eich sefydliad gwasanaeth carchardai lleol.
Ymwelwch â Chymdeithas Genedlaethol yr Ymwelwyr Carchar yn www.napv.org.uk

Cynorthwywch **Ganolfan Ymwelwyr** eich carchar lleol – mae gan rai carchardai wirfoddolwyr sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth i ymwelwyr.
Ffoniwch eich carchar agosaf a siaradwch â phwy bynnag sy'n rhedeg y Ganolfan Ymwelwyr i weld a oes angen gwirfoddolwyr arnynt.

Byddwch yn **Fentor** – rhywun sy'n fodel rôl cadarnhaol, yn enwedig ar gyfer troseddwyr ifanc y mae'n bosibl nad oes ganddynt ffigur cadarnhaol yn eu bywydau.
Ymwelwch â'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn www.probation.homeoffice.gov.uk
Anfonwch ebost i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn npd.publicenquiry@homeoffice.gov.uk i gael rhagor o fanylion.

Am wybod mwy?

Gwybodaeth am y System Cyfiawnder Troseddol

Y System Cyfiawnder Troseddol a'r Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol
www.cjsonline.gov.uk

Gwasanaeth yr Heddlu
www.police.uk
www.policereform.gov.uk

Gwasanaeth Erlyn y Goron
www.cps.gov.uk

Llysoedd Ynadon
www.dca.gov.uk
www.magistrates-association.org.uk

Llysoedd y Goron
www.courtservice.gov.uk
www.dca.gov.uk

Gwasanaeth Carchardai EM
www.hmprisonservice.gov.uk

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
www.probation.homeoffice.gov.uk

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
www.youth-justice-board.gov.uk

Gwybodaeth am gynorthwyo'r System Cyfiawnder Troseddol

Cymorth i Ddioddefwyr a Gwasanaeth Tystion
www.victimsupport.org

Lleihau troseddau
www.crimereduction.gov.uk

Bod yn rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol
(cyhoeddiad gan Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai)
www.ccjf.org/what/index.html

Gwarchod Cymdogaeth
www.neighbourhoodwatch.uk.com

Crimestoppers
www.crimestoppers-uk.org

Adrannau'r Llywodraeth

Y Swyddfa Gartref
www.homeoffice.gov.uk

Yr Adran Materion Cyfansoddiadol
www.dca.gov.uk

Adran Swyddogion y Gyfraith
www.lslo.gov.uk

Y System Cyfiawnder Troseddol

Y System Cyfiawnder Troseddol yw un o brif wasanaethau cyhoeddus y wlad, gan gwmpasu pawb sy'n gweithio i sicrhau cyfiawnder – o ynadon a chyfreithwyr Erlyn y Goron i swyddogion yr heddlu a swyddogion carchardai.

Ar lefel leol, caiff gwaith asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol ei gydlynu gan 42 o Fyrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol. Ar lefel genedlaethol, mae tair adran o'r llywodraeth yn gyfrifol am oruchwylio ymdrechion y llywodraeth i wella'r system.

Y Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol yw'r tîm traws-adrannol sy'n cynorthwyo'r holl asiantaethau cyfiawnder troseddol i weithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaeth gwell i'r cyhoedd. Mae'n atebol i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol, sy'n cynnwys gweinidogion, penaethiaid gwasanaethau'r System Cyfiawnder Troseddol a gweision sifil o adrannau'r llywodraeth sy'n goruchwylio gwaith gwasanaethau'r System Cyfiawnder Troseddol.

Caiff rhai gwasanaethau a mentrau o fewn y System Cyfiawnder Troseddol eu rhedeg gan nifer o grwpiau gwirfoddol fel Cymorth i Ddioddefwyr a'r Gymdeithas Genedlaethol er Gofal ac Ailsefydlu Troseddwyr (Nacro).

Hil

Nid yw profiad pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn y System Cyfiawnder Troseddol bob amser yr un peth â phrofiad pobl wyn ac mae camwahaniaethu yn bodoli. Mae'r System Cyfiawnder Troseddol yn ymrwymedig i waith diwygio er mwyn sicrhau tegwch a chydraddoldeb ar draws y system. Sefydlwyd rhaglen waith i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â hil yn y System Cyfiawnder Troseddol. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am waith yr Uned Hil, cysylltwch â CJSRace@homeoffice.gsi.gov.uk

Cyhoeddwyd gan Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu y Swyddfa Gartref, Medi 2004. IJW/1.